OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2730 (Cy.234)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Personau sy'n Darparu Addysg Mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*10 Hydref 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*13 Hydref 2009*
Yn dod i rym - -	*4 Tachwedd 2009*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 136(c), adran 210(7), ac adran 214(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Personau sy'n Darparu Addysg mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 4 Tachwedd 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygiadau i Reoliadau Personau sy'n Darparu Addysg mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) 2007

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Personau sy'n Darparu Addysg mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) 2007(**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn nhestun Saesneg rheoliad 3(1), ar ôl "the Police Act 1997", hepgorer y geiriau "of that Act".

(3) Yn nhestun Cymraeg rheoliad 3(1), yn lle "o'r Ddeddf honno" rhodder "o Ddeddf yr Heddlu 1997".

(**1**) 2002 p.32. Mae adran 210 wedi'i diwygio gan adran 21(1), (3)(a) ac (c)(i) a (ii) o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2).

(**2**) O.S. 2007/2220 (Cy.175) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2544 (Cy.206)).